OWAIN ap GRUFFYDD (bu farw 1236), tywysog Deheubarth

Enw: Owain ap Gruffydd
Dyddiad marw: 1236
Plentyn: Maredudd ap Owain ap Gruffydd
Rhiant: Matilda Braose
Rhiant: Gruffydd ap Rhys
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: tywysog Deheubarth
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

Cyd-aer, gyda Rhys Ieuanc, i Gruffydd, mab hynaf yr arglwydd Rhys. Matilda, merch William de Breos, oedd ei fam. Er ei fod dros dro, ar brydiau, yn gwrthwynebu Llywelyn I, eto cafodd ef a'i frawd noddwr a diffynnydd pwerus iddynt yn Llywelyn yn erbyn eu hewythredd - Rhys Gryg a Maelgwn. Yn y Cantref Bychan yr oedd y tiroedd a gafodd ef ar y cyntaf, eithr pan ailrannwyd tiroedd yr arglwydd Rhys yn 1216 (gweler Llywelyn I) cafodd diroedd y tu uchaf i afon Aeron hefyd a phan fu Rhys Ieuanc farw yn 1222 estynnwyd y rhain i gynnwys y rhan fwyaf o ogledd Ceredigion. Bu farw yn Ystrad Fflur 18 Ionawr 1236 a chladdwyd ef yn ochr ei rieni a'i frawd. Dilynwyd ef gan un mab - Maredudd.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Williams, *The Abbey Church of Strata Florida, Cardiganshire* (1887)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q19325048

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu